## ATODLEN 3

Erthygl 13A

Symudiadau a ganiateir heb brofion ar ôl symud

**Symud anifail i'w gigydda**

**1.** Symud anifail buchol yn uniongyrchol i'w gigydda.

**Symud i farchnadoedd cigydda**

**2.** Symud anifail buchol yn uniongyrchol i farchnad y mae'r holl anifeiliaid yn mynd yn uniongyrchol ohoni i'w cigydda.

**Symud i unedau pesgi eithriedig**

**3.** Symud anifail buchol yn uniongyrchol i uned besgi eithriedig a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru o dan erthygl 14A.

**Symud i unedau pesgi cymeradwy**

**4.** Symud anifail buchol yn uniongyrchol i uned besgi gymeradwy a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru o dan erthygl 14A.

**Symud i unedau pesgi trwyddedig**

**5.** Symud anifail buchol yn uniongyrchol i uned besgi drwyddedig.

**Symud i sioeau amaethyddol**

**6.** Symud anifail buchol i sioe amaethyddol yn yr ardal TB isel, neu ddychwelyd anifail i'r ardal TB isel o sioe amaethyddol y tu allan i'r ardal TB isel, ar yr amod—

(a) nad yw'r symud yn golygu aros am fwy na 24 awr neu letya'r anifail hwnnw ar faes y sioe; a

(b) bod yr anifail naill ai'n mynd yn uniongyrchol o'r sioe i'w gigydda neu'n cael ei ddychwelyd yn uniongyrchol i'w fangre wreiddiol ar ôl y sioe.

**Symud o'r ardal risg isel yn Lloegr i'r ardal TB isel**

**7.** Symud anifail buchol o'r ardal risg isel yn Lloegr i'r ardal TB isel. Ystyr "yr ardal risg isel yn Lloegr ("*the low risk area in England*") yw'r ardal a ddiffinnir yn erthygl 9A o Orchymyn Twbercwlosis (Lloegr) 2014(**1**).

(**1**) O.S. 2014/2383 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2015/1838 ac O.S. 2016/347.